

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

# Mannau ar gyfer cynnal digwyddiadau

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Cyswllt Cyntaf

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru, i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Cynnwys


**Mannau arddangos ........ 1**

Pierhead: Oriel y Dyfodol ........ 3

Senedd: Yr Oriel ........ 5

**Cynnal digwyddiadau ........ 7**

Pierhead: Parlwr y Pierhead ........ 9

Pierhead: Y Brif Neuadd ........ 11

Pierhead: Ystafell seminar ........ 13

Senedd: Y Neuadd ........ 15

Senedd: Yr Oriel ........ 17

Tŷ Hywel: Siambr Hywel ........ 19

**Cefnogi eich digwyddiad ........ 21**

Rôl y Swyddog Digwyddiadau ........ 22

Ystâd y Cynulliad ym Mae Caerdydd ........ 23

**Sut i'n cyrraedd ........ 25**

Bws ........ 27

Trên ........ 27

Ar y ffordd ........ 27

Parcio ........ 28

Parcio Bws ........ 28

Beicio / Cerdded ........ 28

# Mannau arddangos



## Pierhead: Oriel y Dyfodol

Yn yr oriel hon gallwch ddangos eich gweledigaeth chi o ddyfodol Cymru. Mae'r Pierhead yn lle poblogaidd ymhlith ymwelwyr â’r Bae, a bydd Aelodau'r Cynulliad yn ymweld â'r adeilad yn aml hefyd.

Yma, byddwn yn rhoi pedwar bwrdd arddangos ichi eu defnyddio, sef cyfanswm o 24m (lled) x 2m (hyd). Bydd angen ichi osod llinyn ar eich gwaith celf os ydych am ei hongian, ac rydym yn caniatáu ichi ddefnyddio tâp ‘Command’ ar y byrddau i osod posteri neu gapsiynau.



## Senedd: Yr Oriel

Mae siâp y twndis yn debyg i goeden a’r nod yw annog ymwelwyr i gyfarfod a rhannu syniadau. Mae'r Oriel yn lle addas iawn i wneud hynny gan fod caffi a siop y Senedd yn y cefn a golygfeydd braf o'r Bae. Mae'r Senedd yn lle agored a chroesawgar lle caiff pobl Cymru eu hannog i gymryd rhan yng ngwaith y Cynulliad.

Yma, byddwn yn rhoi tri bwrdd arddangos ichi eu defnyddio, sef cyfanswm o 18m (lled) x 2m (hyd). Bydd angen ichi osod llinyn ar eich gwaith celf os ydych am ei hongian, ac rydym yn caniatáu ichi ddefnyddio tâp ‘Command’ ar y byrddau i osod posteri neu gapsiynau.

# Cynnal digwyddiadau



## Pierhead: Parlwr y Pierhead

Hon oedd Ystafell yr Harbwrfeistr gynt, lle y byddai dociau Caerdydd yn cael eu rheoli yn ystod eu cyfnod prysuraf. Mae iddi nenfwd uchel, ffenestri mawr a lle tân – a hon yw ystafell fwyaf urddasol y Pierhead. Mae'n fwyaf addas ar gyfer cyfarfodydd neu ddigwyddiadau rhwydweithio bach.

**Amseroedd**

Mae hyn yn cynnwys yr amser y mae'n ei gymryd i chi osod a datgymalu unrhyw offer:

– Dydd Mawrth: 16.30 – 20.00

– Dydd Mercher: 16.30 – 20.00

– Dydd Iau: 16.30 – 20.00

**Cynllun a niferoedd:**

– Mae lle i ddeg ar hugain o bobl sefyll (ac mae rhai seddi ar gael).


1

## Pierhead: Y Brif Neuadd

Bydd trefnu cynhadledd neu ddarlith yn y lle unigryw hwn yn eich helpu i dynnu sylw at y pynciau sy'n peri pryder i chi.  Mae system glyweled ar gael i ychwanegu at eich cyflwyniad.

**Amseroedd**

Mae hyn yn cynnwys yr amser y mae'n ei gymryd i chi osod a datgymalu unrhyw offer:

- Dydd Llun a dydd Gwener: 09.30 – 16.30
- Dydd Mawrth, dydd Mercher a dydd Iau: 09.30 – 14.00 neu 16.00 – 20.00.

**Cynllun a niferoedd:**

- Seddi wedi'u gosod ar ffurf theatr: 100
- Cyfuniad o seddi wedi'u gosod ar ffurf theatr ac mewn rhesi: 120
- Ar ffurf  cabaret (byrddau crwn): 100
- Sefyll: 140


Undeb Sy'n Newid
Changing Union

## Pierhead: Ystafell seminar

Mae'r ystafelloedd cyfarfod hyn yn ddefnyddiol ar gyfer cyfarfodydd ar ffurf ystafell fwrdd, neu ar gyfer sesiynau grŵp sy'n rhan o ddigwyddiadau a drefnir yn y Brif Neuadd.

**Amseroedd**

Mae hyn yn cynnwys yr amser y mae'n ei gymryd i chi osod a datgymalu unrhyw offer:

- Dydd Llun a dydd Gwener 09.30 – 16.30
- Dydd Mawrth, dydd Mercher, dydd Iau: 09.30 – 14.00 neu 16.00 – 20.00.

**Cynllun a niferoedd:**

- Seddi wedi'u gosod ar ffurf theatr: 40
- Ffurf ystafell fwrdd: 30
- Gellir rhannu'r ystafell a haneru nifer y seddi



## Senedd: Y Neuadd

Dyma'r man cyhoeddus mwyaf a phrysuraf yn y Senedd ac yma, byddai'ch digwyddiad yn cael ei gynnal ochr yn ochr â Busnes y Cynulliad. Mae'r Neuadd hefyd yn lle perffaith i fwynhau'r golygfeydd braf dros Fae Caerdydd, gan gynnwys y Pierhead eiconig. Mae'r lle'n addas os yw'ch digwyddiad yn cynnwys negeseuon neu areithiau rydych am i Aelodau'r Cynulliad eu clywed.

**Amseroedd**

Mae hyn yn cynnwys yr amser y mae'n ei gymryd i chi osod a datgymalu unrhyw offer:

– Dydd Llun a dydd Gwener yn unig 09.30 – 16.30

– Dydd Mawrth, dydd Mercher, dydd Iau: 08.00 – 14.00 neu 16.00 – 20.00.

**Cynllun a niferoedd:**

– Seddi wedi'u gosod ar ffurf theatr: 150

– Ffurf cabaret (byrddau crwn): 100

– Sefyll: 200.



## Senedd: Yr Oriel

Mae’r Oriel ar y llawr uchaf, ac mae’n hawdd ei chyrraedd o’r Neuadd. Gellir ei llogi ar gyfer digwyddiadau llai neu fel lle ychwanegol ar gyfer digwyddiadau a gynhelir yn y Neuadd.

Mae siâp y twndis yn debyg i goeden a’r nod yw annog ymwelwyr i gyfarfod a rhannu syniadau. Mae'r Oriel yn lle addas iawn i wneud hynny gan fod caffi a siop y Senedd yn y cefn a golygfeydd braf o'r Bae.

**Amseroedd**

Mae hyn yn cynnwys yr amser y mae'n ei gymryd i chi osod a datgymalu unrhyw offer:

- Dydd Llun a dydd Gwener yn unig 09.30 – 16.30
- Dydd Mawrth, dydd Mercher, dydd Iau 08.00 – 14.00 neu 16.00 – 20.00.

**Cynllun a niferoedd:**

- Seddi wedi’u gosod ar ffurf theatr: 25
- Sefyll: 110


Cyfreithiau Hywel Dda
Laws of Hywel Dda

## Tŷ Hywel: Siambr Hywel

Siambr Hywel yw hen siambr drafod y Cynulliad. Mae’n lleoliad unigryw i gynnal digwyddiadau yn Nhŷ Hywel. Mae wedi’i henwi ar ôl Hywel Dda, a wnaeth y cyfreithiau cyntaf ar gyfer Cymru yn y ddegfed ganrif.

Ers i’r Senedd agor yn 2006, mae Siambr Hywel wedi’i hadnewyddu a’i hail-agor fel siambr drafod bwrpasol ar gyfer pobl ifanc ac fel canolfan ddysgu ryngweithiol. Siambr Hywel oedd y cyntaf o’i fath yn Ewrop. Ers ei lansiad yn 2009, mae wedi bod yn lleoliad poblogaidd ar gyfer addysgu, cynadleddau a darlithoedd.

**Amseroedd**

Mae hyn yn cynnwys yr amser y mae'n ei gymryd i chi osod a datgymalu unrhyw offer:

– Dydd Llun a dydd Gwener 08.00 – 16.30;

– Dydd Mawrth, dydd Mercher, dydd Iau: 17.00 – 20.00.

**Cynllun a niferoedd:**

– Fel darlithfa: 60

– Mae’r ystafell yn gallu dal: 100

# Cefnogi eich digwyddiad

## Rôl y Swyddog Digwyddiadau

Ein tîm o swyddogion digwyddiadau fydd eich prif gyswllt pan fyddwch yn trefnu digwyddiad ar ystâd y Cynulliad. Yn fuan ar ôl cadarnhau'ch digwyddiad, bydd rhywun o'r tîm yn cysylltu â chi i'ch cyfarfod ar y safle neu i'ch ffonio i drafod:

– yr amodau a'r telerau

– yr hyn y gallwn ei gynnig i'ch digwyddiad, gan gynnwys:

    – y cynllun:

    – cymorth clyweled;

    – sut i archebu gwasanaeth arlwyo.

– yr effaith ar Fusnes y Cynulliad, Iechyd a Diogelwch, a Diogelwch;

– unrhyw gwestiynau.

Cysylltwch â ni os hoffech i rywun o'r tîm ddangos y mannau uchod ichi cyn ichi wneud cais.

## Ystâd y Cynulliad ym Mae Caerdydd

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ymrwymo i hyrwyddo cyfle cyfartal ac i sicrhau bod gan bawb yr un mynediad i'n hadeiladau.

O gofio'r ymrwymiad hwnnw, mae'r cymhorthion a'r gwasanaethau canlynol ar gael i sicrhau bod ein holl ymwelwyr yn teimlo'n gyfforddus a'u bod yn cael croeso pan fyddant yn ymweld â'n hystâd:

– Mynediad ar lefel y ddaear i'r Pierhead a Thŷ Hywel a ramp mynediad / lifft i'r Senedd;

– Arwyddion braille trwy'r ystâd i gyd;

– Systemau dolen sain trwy'r ystâd i gyd;

– Cyfleusterau toiledau hygyrch, gan gynnwys cyfleuster Lleoedd Newid yn y Senedd;

– Mae croeso i gŵn tywys;

– Mae cadeiriau olwyn ar gael i'w benthyca ar y safle;

– Mae ystafell weddïo/myfyrio ar gael yn y Senedd;

– Mae ystafell rhiant a phlentyn ar gael, yn ogystal ag ystafell newid babanod;

– Mae dynion a menywod ar gael ymhlith y swyddogion diogelwch a'r heddweision.

# Sut i'n cyrraedd


Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Travelodge
The Red Dragon Centre
The Red Dragon Centre
Hemingway Rd
Cardiff Bay
ODEON Cinema Cardiff
A4232
A4232
A4232
Lloyd George Ave
Bute St
W Bute St
BayArt Gallery
Butetown History
& Arts Centre
Portland House
Bute Pl
Bute Pl
Pierhead St
Ship Ln
A4119
Bute St
Bute St
Roald
Dahl Plass
Senedd
Pierhead
KPM
New George St
Mermaid Quay
Las Iguanas
Ianto Jones Shrine
Landsea
Gardens
Harbour Dr
Google

## Bws

Mae bws rhif 6 yn gadael Gorsaf Heol-y-Frenhines, Plas Dumfries, Heol y Brodyr Llwydion, Heol Eglwys Fair neu Orsaf Ganolog Caerdydd bob 10 munud, ac mae'n stopio yn Stryd y Pierhead ac o flaen Canolfan y Mileniwm, gerllaw'r Senedd.

Mae bysiau rhif 7 ac 8 yn gadael Heol y Gamlas a Heol y Porth yn ôl eu trefn bob chwarter awr ac yn stopio ar Stryd y Pierhead, taith gerdded fer (oddeutu 200 metr) o'r Senedd a'r Pierhead.

Mae bws rhif 11 yn gadael Heol Eglwys Fair bob hanner awr i Gei'r Fôr-forwyn.

## Trên

Mae gwasanaethau'n rhedeg bob 12 munud o Orsaf Heol y Frenhines, Caerdydd i Orsaf Bae Caerdydd. Mae'r orsaf ychydig funudau o'r Senedd a'r Pierhead.

## Ar y ffordd

Gadewch yr M4 ar gyffordd 33, dilynwch yr A4232 i gyfeiriad Bae Caerdydd a dilynwch yr arwyddion i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, CF99 1NA.

## Parcio

Y lle parcio agosaf yw'r maes parcio aml-lawr yn Stryd y Pierhead, sydd o fewn pellter cerdded agos at y Cynulliad.

## Parcio Bws

Mae map sy'n nodi ble y gall bysiau adael ymwelwyr ar gael gan Linell Wybodaeth y Cynulliad.

## Beicio / Cerdded

Mae llwybr 'Taith Taf' yn rhedeg o Aberhonddu ar hyd yr afon, drwy ganol y brifddinas, cyn dod i'w derfyn ger y Basn Hirgrwn y tu allan i'r Senedd. Hefyd, mae llwybr i feicwyr a cherddwyr ar hyd yr A4232 o Barc Manwerthu Bae Caerdydd.